Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Adroddiad Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2019-20

Hydref 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Adroddiad Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2019-20

Hydref 2018

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Jane Hutt AC**
Llafur Cymru
Bro Morgannwg



**Steffan Lewis AC**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Nick Ramsay AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



**David Rees AC**
Llafur Cymru
Aberafan

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn



**Llyr Gruffydd AC**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn yn bresennol yn ystod yr ymchwiliad hwn, yn unol â Rheol Sefydlog 17:49:



**Helen Mary Jones AC**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion a Chasgliadau** ..................................................................... 5

**1. Cyflwyniad** ..................................................................................................7

**2. Cyllideb Comisiwn y Cynulliad** ........................................................... 8

**3. Newidiadau o ran staffio a llywodraethu** ....................................... 21

**4. Diwygio'r Cynulliad** ................................................................................ 29

# Argymhellion a Chasgliadau

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiwn fod â dull gweithredu cyson o ran sut mae newidiadau i gyllidebau blynyddol yn cael eu cyflwyno, er enghraifft, gan gynnwys, neu beidio, wariant nad yw'n arian parod a gwariant a reolir yn flynyddol. ........ Tudalen 19

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, cyn gosod y gyllideb derfynol, bod y ddogfennaeth yn cael ei diwygio i egluro'r gwaith prosiect sy'n cael ei gyflawni o dan y pennawd "gwybodaeth gyhoeddus ac ymgysylltu". ........ Tudalen 19

**Argymhelliad 3.** Mae ansicrwydd ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â'r Senedd Ieuenctid ac mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ystyried ymhellach sut y penderfynir ar y costau, a sut y cânt eu cyflwyno yn y Gyllideb ddrafft........ Tudalen 19

**Argymhelliad 4.** Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael eglurder ynghylch prosiect y feddalwedd, Legislative Workbench, gan gynnwys eglurder ynghylch y costau a sut y rhennir y rhain â Llywodraeth Cymru. ........ Tudalen 19

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai unrhyw benderfyniadau o ran staffio gael eu hystyried o ddifri gan y Comisiwn, gan gynnwys unrhyw Gynllun Ymadael Gwirfoddol, a dylai unrhyw gynllun o'r fath gael ei gysylltu'n agos â chanfyddiadau'r Adolygiad Capasiti diweddar. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y cynnydd ymddangosiadol mewn absenoldeb oherwydd salwch a throsiant staff, ac mae'n argymell y dylid darparu rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae'r Comisiwn yn mynd i'r afael â'r materion hyn........ Tudalen 28

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig ynglŷn â Diwygio'r Cynulliad gynnwys asesiad cadarn o effaith ariannol........ Tudalen 30

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn darparu manylion am y newidiadau yn y gyllideb derfynol sy'n adlewyrchu gwariant ar ddiwygio'r Cynulliad i'r Pwyllgor. Pe bai gofyniad am gyllideb atodol mewn perthynas â diwygio, dylai'r Comisiwn ddarparu manylion i'r Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl. ........ Tudalen 30

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon â chynigion y Gyllideb ddrafft. ............Tudalen 19

**Casgliad 2.** Mewn amgylchiadau ble y byddai gwariant o ran y Penderfyniad yn fwy na'r amcangyfrif, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl y byddai cyllideb atodol yn gyfrifol am hyn, yn yr un modd ag y byddai unrhyw danwariant sy'n deillio o'r Penderfyniad yn dychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru drwy gyllideb atodol, yn hytrach na chael ei amsugno a'i wario gan y Comisiwn. ........................................Tudalen 19

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

**1.** Mae Rheol Sefydlog 20.13 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi:

> "Heb fod yn hwyrach na 1 Hydref ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau'r Comisiwn osod gerbron y Cynulliad gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall y mae'r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru."[1]

**2.** Mae'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar y gyllideb ddrafft hon. Mae Rheol Sefydlog 20.14 yn nodi:

> "Caiff adroddiad y pwyllgor cyfrifol argymell amrywiadau yn y symiau a gynigiwyd yn y gyllideb ddrafft ar yr amod na fyddai effaith net yr amrywiadau hynny'n cynyddu cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn."[2]

**3.** Trafododd y Pwyllgor **Gyllideb Ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2019-20** yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2018, a chlywodd dystiolaeth gan:

- Suzy Davies AC, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu;
- Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad;
- Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid.

**4.** Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 16 Hydref, **ysgrifennodd y Comisiwn at y Pwyllgor** i roi rhagor o wybodaeth am rai o'r materion a godwyd yn y sesiwn dystiolaeth.

[1] Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rh.S 20.13, Hydref 2018

[2] Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rh.S 20.14, Hydref 2018

# 2. Cyllideb Comisiwn y Cynulliad

**5.** Roedd Cyllideb Derfynol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2012-13[3] yn cynnwys rhaglen fuddsoddi tair blynedd o gynnydd uwch na chwyddiant i gefnogi'r gwaith o gynyddu capasiti ar gyfer datganoli pwerau ychwanegol. Amlygodd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad ddisgwyliad na ddylai unrhyw gynnydd, yn 2015-16 na'r blynyddoedd dilynol, fod yn fwy na'r newid i grant bloc Cymru.[4]

**6.** Yn ei adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft 2018-19, roedd y Pwyllgor yn pryderu fod cais y gyllideb yn uwch na chwyddiant a'r cynnydd i Grant Bloc Cymru, ac argymhellodd:

> "… ar gyfer yr hyn sy'n weddill o'r Cynulliad hwn, na ddylai cyllideb y Comisiwn fod yn fwy nag unrhyw newidiadau i Grant Bloc Cymru."[5]

**7.** Mae'r newid o ddefnyddio tanwariant y Bwrdd Taliadau i gynnwys cronfa prosiectau wedi arwain at newid i'r ffordd y caiff cymariaethau o'r naill flwyddyn i'r llall eu cyflwyno. Mae'r Comisiwn yn cyflwyno'r gyllideb fel cynnydd o 1.66 y cant o ran y gyllideb weithredol a chynnydd o 1.67 y cant o ran y gyllideb gyffredinol, yn unol â disgwyliad y Comisiwn y bydd cynnydd o 1.67 y cant ym mloc Cymru.

**8.** Ac eithrio cyllidebau sydd wedi'u neilltuo a rhai nad ydynt yn arian parod, mae'r Comisiwn yn gofyn am £53.3 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2019-20, o gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd o £51.7 miliwn yn 2018-19. Mae hwn yn gynnydd o £1.6 miliwn mewn arian parod neu 3.1 y cant. Mae hwn yn gynnydd o £1.1 miliwn mewn arian parod, neu 2.2%. Mae'r gyllideb yn darparu ar gyfer lleihad o £650,000 miliwn mewn gwariant wedi'i neilltuo a gwariant nad yw'n arian parod. Dengys Tabl 1 y dyraniadau Cyllideb Ddrafft lefel uchel ar gyfer 2019-20.

---

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, GEN-LD8713, Cynigion Cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012-13, 9 Tachwedd 2011

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, CR-LD9070 Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Graffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2013-14, 18 Hydref 2012

[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, CR-LD11245 Y Pwyllgor Cyllid - Craffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19, 20 Hydref 2017

Tabl 1: Cyllideb Ddrafft 2019-20: Lefel uchel[6]

| | 2018-19 | 2019-20 | Newid | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| *Cyllideb Comisiwn y Cynulliad* | | | | |
| Cyfanswm y Gyllideb Weithredol | 35,487 | 36,076 | 1.66% | 589 |
| Cronfa Prosiectau | – | 1,000 | N/A | 1,000 |
| **Cyllideb y Comisiwn heb gynnwys dibrisiant** | **35,487** | **37,076** | **4.5%** | **1,589** |
| Costau dibrisiant ac amorteiddiad | 2,400 | 2,250 | -6.3% | -150 |
| **Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn** | **37,887** | **39,326** | **3.8%** | **1,439** |
| *Gwariant sy'n Gysylltiedig ag Aelodau* | | | | |
| Cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig | 16,201 | 16,197 | 0.0% | -4 |
| Costau cyllid Pensiynau'r Aelodau | 2,000 | 1,500 | -25.0% | -500 |
| **Cyfanswm y Gyllideb, yn ymwneud â'r Aelodau** | **18,201** | **17,697** | **-2.8%** | **-504** |
| **Cyfanswm y Gyllideb net** | **56,088** | **57,023** | **1.67%** | **935** |

**9.** Mae'r gyllideb weithredol o £57.0 miliwn a gynigiwyd gan y Comisiwn yn cynnwys:

- Cyllideb Gwasanaethau'r Comisiwn, nad yw'n cynnwys cyllideb wedi'i neilltuo, dibrisiant a gwariant a reolir yn flynyddol, o £37.1 miliwn, sy'n uwch na £35.5 miliwn, sef cynnydd o 4.5 y cant;
- Cyllideb Gwasanaethau'r Comisiwn, sef £39.3 miliwn, o gymharu â £37.9 miliwn, sef cynnydd o 3.8 y cant; a
- Chyllideb ar gyfer **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau** ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, sef £17.7 miliwn, sef 2.8 y cant yn is o gymharu â chyllideb 2018-19.

[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, GEN-LD11756 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyllideb Ddrafft 2019-20, 26 Medi 2018, tudalen 36; a chyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil

**10.** Mewn perthynas â sut y penderfynodd y Comisiwn ar yr 1.67 y cant, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid:

> "The figure that we focused on was the 1.67, on the total budget. From the figures that we've received from Welsh Government, that will be the increase that they expect to have at the Welsh block for 2019-20. That may change, but that was the figure that we were given, so on the whole budget. And that includes non-cash, it includes the determination budget, it includes depreciation, it includes a number of things. We felt that was the most transparent way to present this transitional budget. It's very difficult to compare last year's budget to this year's budget because of the number of changes that we've put through: the churn figures, the commitment not to access any underspend on the determination budget. There were quite a number of changes. Going forward, there is merit in looking at excluding non-cash items, such as the capital charges of depreciation, and excluding the AME budget, because the AME budget, for example, is out of our control—it's based on information we have from the Government Actuary's Department. And there is also potentially merit in excluding the determination budget from the Commission's—the figure that we're asked to keep our increase within. So, we're open to the recommendations of the committee, and we will look at that in how we determine the budget for 2020-21. But there is merit in looking at non-cash items, because they tend to be out of our control."[7]

## Ffigurau dangosol tair blynedd

**11.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn cynnwys ffigurau dangosol ar gyfer gweddill y Pumed Cynulliad a blwyddyn gyntaf y Chweched Cynulliad. Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi:

> "Defnyddiwyd cynnydd chwyddiant o 1.66% a 1.74% i amcangyfrif y cyllidebau gweithredol ar gyfer 2020-21 a 2021-22, yn y drefn honno. Cyllidebau dangosol yw'r rhain, ac o ystyried cyfradd y newid a'r heriau a wynebir gan y Cynulliad, mae'n debygol y bydd angen adolygu'r rhagolygon hyn mewn dogfennau cyllideb yn y dyfodol. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol i naill ai faint neu gylch gwaith y Cynulliad yn

[7] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 64

> cael eu costio'n llawn a byddent yn debygol o fod angen strategaeth cyllideb gwbl newydd."[8]

## Newidiadau i gyflwyniad Cyllideb 2019-20

**12.** Mewn adroddiadau blaenorol y Pwyllgor a fu'n craffu ar gyllideb ddrafft y Comisiwn, mae'r Pwyllgor wedi bod yn bryderus ynghylch y ffordd y mae'r Comisiwn yn cyllidebu, a chyflwyniad y gwariant arfaethedig. Yn ei adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft 2018-19 argymhellodd y Pwyllgor:

> Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn parhau'n bryderus am dryloywder y gwaith o gyllidebu ar gyfer tanwariant a ragwelir, ond cydnabyddir bod gan y Cynulliad Brif Weithredwr a Chlerc newydd ac mai cyllideb 2018/19 fydd ei chyllideb gyntaf fel Swyddog Cyfrifyddu, ac felly mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ystyried o ddifrif sut yr eir ati i benderfynu ynghylch y gyllideb.[9]

**13.** Oherwydd y pryderon a godwyd, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i'r modd y mae Comisiwn y Cynulliad yn defnyddio'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau.[10] Gwnaeth yr adroddiad hwn nifer o argymhellion, yn arbennig:

> Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn archwilio'n llawn beth yw manteision a risgiau newid prosesau mewn perthynas â thanwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, gyda ffocws ar fod mor dryloyw â phosibl. Dylai hyn hefyd roi ystyriaeth i ganlyniad ymgynghoriad presennol y Bwrdd Taliadau ynghylch hyblygrwydd y lwfansau yn y Penderfyniad.[11]

**14.** Hefyd, mae'r Bwrdd Taliadau wedi gwneud newidiadau i'r Penderfyniad yn ymwneud â'r modd y telir lwfansau i Aelodau, ac mae'n ymgynghori ar newidiadau yn y dyfodol, a fydd yn debygol o leihau'r tanwariant sydd ar gael yn y blynyddoedd i ddod. O ganlyniad, mae'r Gyllideb Ddrafft 2019-20 yn cynnig newid o ran y modd y mae'r Comisiwn yn trin Penderfyniad y Bwrdd Taliadau a hefyd sut

---

[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, GEN-LD11756 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyllideb Ddrafft 2019-20, 26 Medi 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, CR-LD11245, y Pwyllgor Cyllid - Craffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19, 20 Hydref 2017

[10] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, CR-LD11528, Y Pwyllgor Cyllid - Defnydd Comisiwn y Cynulliad o danwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, 1 Mai 2018, Argymhelliad 7

[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, CR-LD11528, Y Pwyllgor Cyllid - Defnydd Comisiwn y Cynulliad o danwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, 1 Mai 2018, Argymhelliad 5

y caiff tanwariant dilynol ei drin. Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi rhagdybiaethau ar godiad cyflog o 2.5 y cant a gyfrifir yn awtomatig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a 3.0 y cant ar gyfer Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, i ganiatáu ar gyfer unrhyw newidiadau eraill y gall y Bwrdd Taliadau eu gwneud yn ei adolygiad sydd i ddod.

**15.** Mae'r Comisiwn wedi amcangyfrif £16,697,000 ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig ag Aelodau, i fodloni gofynion y Penderfyniad. Fodd bynnag, fel rhan o'r dull newydd o gyllidebu ac i gydnabod sut mae ymdriniaeth o danwariant ac o ariannu cronfa fuddsoddi y Comisiwn yn newid, mae'r Comisiwn wedi cynnwys "darpariaeth swyddi gwag / trosiant staff", sy'n dileu £500,000 o'r gyllideb, gan roi cyfanswm o £16,197,000.

**16.** O ran y trosiant staff hwn, amlinellodd y Comisiwn fod y £500,000 yn amcangyfrif sy'n seiliedig ar ffigurau blaenorol, ond hefyd mae'n cyd-fynd â'r hyn a welwyd yng Nghynulliad yr Alban".[12]

**17.** Mewn cysylltiad â'r newid o ran cyllidebu, eglurodd y Prif Weithredwr:

> "… mi gawsom ni lawer o drafodaethau'r llynedd ynglŷn â ph'un ai y dylem ni fod yn gosod y gyllideb ar gyfer y penderfyniad yn 100 y cant o bopeth a allai gael ei alw arno fe. Cawsom ni'n herio bryd hynny i ystyried a fyddai e'n gallach i gyllidebu ychydig yn is oherwydd bod yna, yn gyson, bob blwyddyn, rywfaint o danwario. Felly, dyna beth rŷm ni wedi'i wneud eleni. Mae yna lawer mwy o dryloywder, yn hytrach na dibynnu ar ddisgwyliad o danwariant a defnyddio hynny ar gyfer prosiectau creiddiol. Rŷm ni wedi gosod hynny allan yn glir yn y gyllideb fan hyn. Os bydd mwy o wario. Fel roeddwn i'n ei ddweud, rŷm ni wedi seilio'r amcangyfrif yna o danwariant ar ein profiad ni mewn blynyddoedd o'r blaen. Nawr, mae yna elfennau o'r penderfyniad sydd yn newid oherwydd mae'r bwrdd taliadau wedi awgrymu ambell i newid. Felly, rŷm ni wedi trio bod yn weddol geidwadol yn gwneud yr amcangyfrif yna.
>
> Ar ddiwedd y dydd, os bydd angen mwy, yna mae e'n ddyletswydd statudol arnom ni i dalu'r arian yna, ac felly, bydd yn rhaid inni ffeindio'r arian o gyllideb gyffredinol y Comisiwn, ac wedyn bydd yn rhaid inni reoli prosiectau eraill a'u gohirio nhw, neu beth bynnag, er mwyn bod yr arian ar gael ar gyfer yr Aelodau."[13]

[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 16

[13] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 22

## Y Gyllideb Atodol

**18.** Mae dogfen y Gyllideb ddrafft yn tynnu sylw at ddau o bosibiliadau ar gyfer cyllidebau atodol yn ystod y flwyddyn. Mae un yn ymwneud â newidiadau posibl i gyfraniadau'r cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, o ganlyniad i brisiad o'r Cynllun hwnnw, a gaiff ei gynnal ar hyn o bryd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.

**19.** Mae'r ail bosibilrwydd o ran cyllideb atodol yn codi yn sgîl newidiadau sydd i ddod i reolau cyfrifyddu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i brydlesi gweithredu gael eu cydnabod fel asedau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ac yn amodol ar ddibrisiant, er mwyn cynyddu tryloywder o ran rhwymedigaethau ymrwymedig sefydliad. Mae'r newid hwn yn debygol o ddod i rym o ddechrau'r flwyddyn ariannol 2019-20, ac mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi bod y Comisiwn yn bwriadu dangos unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol i'r gyllideb 2019-20 drwy gyllideb atodol bosibl ym mis Mehefin 2019.

**20.** Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid yr angen posibl am gyllideb atodol yn ymwneud â'r newidiadau a ddisgwylir i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil:

> "… currently, the Government Actuary's Department is undertaking a valuation of the civil service pension scheme…
>
> Early indications, as I've stated within the budget document, are that the average contribution of the Commission could increase from 21 per cent to 28 per cent. And in monetary terms, in cash terms, that would be in excess of £1 million onto our budget next year. So, that amount hasn't been included as yet because the valuation is still taking place. Cabinet Office has written to us and highlighted this issue. So, it's in excess of £1 million to us but a far greater figure, obviously, to the rest of the public sector. The information that the Cabinet Office included in the letter was that Treasury could provide additional funds to UK Government departments and, in turn, that could mean more for the Welsh block, which in turn could increase the Welsh block and then, potentially, that could mean an increase of the Commission budget. So, we're not there yet. Early indications are that we won't know until, and I quote, 'later in the year'. So, I can't give you a definitive timescale for that, but the assumption is that it could be in excess of £1 million.
>
> So, the options open to us are either to continue, as we do, to use resources wisely and find efficiencies within our own budget or, if that's not possible, to come to you for a supplementary budget in the event

> that the Welsh block would have increased, and that gives us scope then to look for an increased budget in line with any increases in the Welsh block."[14]

**21.** O ran y newidiadau'n ymwneud â'r rheolau cyfrifyddu ar gyfer prydlesi gweithredu, esboniodd y Cyfarwyddwr Cyllid:

> "This is a forthcoming change to international accounting and international financial reporting standards. There's a new accounting standard, leases 16, coming in for accounting periods 2019-20. Again, I don't know exactly how that will impact on us. The financial reporting advisory board is meeting in November. We should have more information then, and then they will provide an update to the financial reporting manual, which is published in December of this year, which will give more information about how that accounting standard is adapted for the public sector. So, until then, I can't give a definitive answer, but, potentially, what we know it will involve is that any operating leases that we have—so, Tŷ Hywel, for example—will now be shown on the balance sheet of the statement of financial position and depreciated rather than, as we have at the moment, it's an operating lease and we pay cash for that each year and it's not shown on the statement of financial position. So, there will be quite a change to the presentation of the budget, but no impact in cash."[15]

## Cronfa Prosiectau

**22.** Mae adroddiad y Pwyllgor ar ddefnydd y Comisiwn o'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau yn argymell "bod y Comisiwn yn adolygu ei ddull o ariannu prosiectau cyfalaf, gan sicrhau y caiff arian ei glustnodi ar gyfer prosiectau craidd o fewn ei gyllideb gyfalaf".[16]

**23.** Yn wyneb yr argymhelliad hwn, dywed y Gyllideb ddrafft:

> "… mae llinell gronfa prosiect newydd wedi'i hychwanegu, yn ychwanegol at gyllideb weithredol y Comisiwn. Mae hyn yn disodli'r gronfa fuddsoddi flaenorol a ariannwyd o danwariant yn y Penderfyniad a thanwariant gweithredol.

[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraffau 76-78

[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 80

[16] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, CR-LD11528, Y Pwyllgor Cyllid - Defnydd Comisiwn y Cynulliad o'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau, 1 Mai 2018, Argymhelliad 3

> Mae'r newidiadau hyn yn mynd i'r afael ag argymhellion Pwyllgor Cyllid drwy sicrhau bod tryloywder ychwanegol a bod cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer cyfalaf y Comisiwn a phrosiectau blaenoriaeth mawr eraill."[17]

**24.** Mae'r gronfa Prosiectau yn cynnwys £1 miliwn o arian refeniw a £500,000 o arian cyfalaf yn 2019-20, i ariannu prosiectau blaenoriaeth. Manylir ar y prosiectau hyn yn Atodiad 3 o'r Gyllideb ddrafft.

**25.** Eglurodd y Prif Weithredwr y dull gweithredu a ddefnyddir i reoli prosiectau:

> "We do need to have a fund for investments. This ranges from investments that come under the ICT rolling programme and the estates and facilities management programme—replacing boilers and windows and so forth. We have a degree of latitude over which year we do them in. We can bring them forward or delay them, as fits around other requirements, but these are things that need to be done on a rolling three-year or 10-year basis. Then there are other Assembly priorities, such as developing a new website, and things that were in that pot last year, like the Youth Parliament, that are now business as usual, so the costs are incorporated within the service lines that you have in the budget."[18]

**26.** Mae Atodiad 3 i'r Gyllideb ddrafft yn nodi'r prosiectau blaenoriaeth. Gofynnwyd i'r Comisiwn am ragor o fanylion am y prosiect o'r enw "Gwybodaeth gyhoeddus ac ymgysylltu", ac eglurodd y Prif Weithredwr ei fod yn gysylltiedig â chynigion a oedd yn deillio o'r adroddiad ar ymgysylltu digidol a'r bwriad i ymgysylltu â phobl o ran y Senedd Ieuenctid ac o ran dathliadau ugain oed y Senedd y flwyddyn nesaf.[19]

**27.** Dywedodd y Comisiynydd, pan ofynnwyd yn benodol am y Senedd Ieuenctid:

> "… we're treating the Youth Parliament as a permanent fixture and so it has to go into the 'business as usual' categorisation, if you like. I don't know if you have table 7 of the budget available to you there, which is on page 39. It's 'analysis of other costs', if that helps. There are about a dozen or slightly more lines here, one of which is 'promoting awareness and understanding', and it's actually in that budget line. So, it's just

[17] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, GEN-LD11756 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyllideb Ddrafft 2019-20, 26 Medi 2018, tudalen 15

[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 36

[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 44

> been absorbed now as part of natural business that we have to budget for every year, which we do. It will vary when we get to election years, I think, but apart from that, it's a very static cost, I think."[20]

**28.** Eglurodd y Prif Weithredwr y costau ymhellach:

> "It's £100,000 this year, the current year, because of the election expenses. It's £50,000 next year, within that budget line. This is the further detail of budget that I referred to earlier."[21]

**29.** Pan ofynnwyd iddynt sut roedd y cyllid ar gyfer y Senedd Ieuenctid wedi'i benderfynu, dywedodd y Prif Weithredwr:

> "Obviously, we work with the team who are delivering the service to define what services we think need to be delivered and then forecast and estimate those costs to our best ability.
>
> … for the budget next year, as well as the travel and subsistence costs for the young parliamentarians, there is a certain amount of communication work that's included there as well, and engagement work."[22]

**30.** Un o'r prosiectau a nodwyd fel prosiect "hanfodol"[23] yw'r feddalwedd Deddfwriaeth. Mae naratif y gyllideb ddrafft yn nodi:

> "Gallai newidiadau a manteision gwelliannau i'r feddalwedd bresennol gynnwys:
>
> - Arbedion o ran effeithlonrwydd, sy'n cefnogi pwyllgorau, y Swyddfa Gyflwyno a staff cyfieithu a chofnodi i symud mwy o'u hamser o dasgau prosesau astrus, fel fformatio gwelliannau â llaw, i dasgau â mwy o werth, fel drafftio a gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch;
> - System fwy integredig sydd wedi'i halinio'n agos â chyrff allanol fel Llywodraeth Cymru, yr Archif Genedlaethol a deddfwrfeydd eraill;

[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 163

[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 164

[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 167 a pharagraff 169

[23] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, GEN-LD11756 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyllideb Ddrafft 2019-20, 26 Medi 2018, tudalen 22

- Proses gyhoeddi fwy di-dor i wneud Biliau, rhestrau gwelliannau a Deddfau ar gael mewn fformat data agored cyson o'r dechrau i'r diwedd; a
- Dileu'r angen am ymyriadau â llaw fel bod y system o ddechrau'r broses i'r diwedd yn fwy cydgysylltiedig."[24]

**31.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi:

> "Amcangyfrifir mai cost y gwelliannau hyn yw £200,000, a fyddai'n cael ei rannu'n gyfartal rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru, dros y ddwy flynedd. Mae cyfraniad y Comisiwn wedi'i gynnwys fel £100,000 yn 2019-20 ac yn 2020-21."[25]

**32.** Eglurodd y Prif Weithredwr fod angen i'r Comisiwn:

> "… invest in the system we have already because we're not yet ready, working with the Welsh Government, to determine our exact requirements for a new system, because that's going to be quite an investment. It is a core piece of software that underpins our legislation and streamlines all of it; it removes the possibility of human error, which is obviously very important when we're dealing with amendments and legislation. The new system itself is going to be quite an investment, as I say, but we are speccing that very carefully, in other words, in planning for that now, sharing the cost with the Welsh Government. So, this is actually to keep going the system that we have and to keep it up to date until we're ready to move ahead with that major new project."[26]

## Safbwynt y Pwyllgor

**33.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymdrechion gan y Comisiwn a'r Prif Weithredwr i fynd i'r afael â phryderon blaenorol ynglŷn â dyrannu cyllideb y Comisiwn a'i chyflwyno. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod, yng ngoleuni'r newidiadau i Benderfyniad y Bwrdd Taliadau, y byddai'n debygol y byddai'n rhaid i'r Comisiwn fod wedi gwneud newidiadau oherwydd y byddai'r tanwariant wedi lleihau, ond mae'r

[24] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, GEN-LD11756 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyllideb Ddrafft 2019-20, 26 Medi 2018, tudalennau 22-23

[25] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, GEN-LD11756 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyllideb Ddrafft 2019-20, 26 Medi 2018, tudalen 23

[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 51

Pwyllgor yn credu'n gryf fod y newidiadau'n cyfrannu at dryloywder wrth gyllidebu.

**34.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu dull gweithredu'r Prif Weithredwr ers ei phenodiad, ac mae'n arbennig o falch o'r dull agored a welir gan y Prif Weithredwr a'i pharodrwydd i weithio gyda'r Pwyllgor.

**35.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed gan y Comisiwn i nodi'n gliriach y galw tebygol gan Aelodau o ran y Penderfyniad. Dywedodd y Prif Weithredwr, fodd bynnag, petai'r Penderfyniad yn fwy na'r amcangyfrif, y byddai unrhyw orwariant yn cael ei dalu o gyllideb y Comisiwn. Er ei fod yn cydnabod bod y gyllideb ar gyfer y Penderfyniad a chyllideb y Comisiwn wedi'u halinio'n agos, yn enwedig gan fod y Comisiwn yn talu rhai agweddau ar gostau Aelodau, ni fyddai'r Pwyllgor yn disgwyl i unrhyw gostau annisgwyl y Penderfyniad gael eu talu o gyllideb y Comisiwn. Mewn amgylchiadau ble y byddai gwariant o ran y Penderfyniad yn fwy na'r amcangyfrif, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl y byddai cyllideb atodol yn gyfrifol am hyn, yn yr un modd ag y byddai unrhyw danwariant sy'n deillio o'r Penderfyniad yn dychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru drwy gyllideb atodol, yn hytrach na chael ei amsugno a'i wario gan y Comisiwn.

**36.** Er nad oedd y Pwyllgor wedi ystyried ffigurau cyllideb mynegol y tu hwnt i 2019-20, mae'n cymeradwyo bod ffigurau dangosol tair blynedd wedi'u darparu yn y Gyllideb ddrafft. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod ansicrwydd sylweddol ynghylch gwariant cyhoeddus yn y tymor byr, wrth i ni nesáu at ddiwedd y Pumed Cynulliad a dechrau'r Chweched Cynulliad, fel newidiadau i Gyllideb yr Hydref, Llywodraeth y DU, effaith economaidd tymor hwy ac ansicrwydd cyffredinol mewn cysylltiad â thrafodaethau i ymadael â'r UE a'r cynigion i ddiwygio'r Cynulliad.

**37.** Yn anochel, roedd newid i broses gyllidebu newydd yn achosi anawsterau wrth wneud cymariaethau rhwng cyllidebau 2018-19 a 2019-20. Hoffai'r Pwyllgor weld cysondeb o ran sut mae cynyddiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno, gyda gwariant nad yw'n arian parod a gwariant a reolir yn flynyddol neu beidio.

**38.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y ddau bosibilrwydd o ran cyllideb atodol yn y flwyddyn ariannol nesaf yn deillio o ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth y Comisiwn, ac mae'n gwerthfawrogi bod yr wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn y Gyllideb ddrafft.

**39.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r tryloywder mewn perthynas â chynnwys gwybodaeth benodol o ran y prosiectau blaenoriaeth y mae'r Comisiwn yn ymgymryd â hwy. Mae angen sicrhau, fodd bynnag, bod rhai materion yn eglur o

hyd. O ran y prosiect "gwybodaeth gyhoeddus ac ymgysylltu", er bod y Pwyllgor yn nodi naratif y Gyllideb ddrafft a'r dystiolaeth lafar, mae'n ei chael hi'n anodd gweld sut mae "gwybodaeth gyhoeddus ac ymgysylltu" yn brosiect penodol, ac mae o'r farn y dylid darparu eglurder yn nogfennaeth cyllideb derfynol y Comisiwn.

**40.** Mae'r dull o ran sut mae adnoddau i ariannu'r Senedd Ieuenctid yn cael eu cyflwyno yn y gyllideb yn ddryslyd. Mae'r Pwyllgor yn synnu na chrybwyllir y costau penodol sy'n gysylltiedig â'r Senedd Ieuenctid yn y Gyllideb ddrafft. Rhoddodd tystiolaeth lafar fanylion am y costau o £100,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, a chostau parhaus o £50,000 bob blwyddyn ariannol, ond mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid nodi hyn yn y gyllideb.[27] Nid oedd y Pwyllgor chwaith wedi'i ddarbwyllo ynghylch sut y sefydlwyd costau'r Senedd Ieuenctid, a byddai'n croesawu eglurder ynglŷn â hyn.

**41.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn cynnwys costau mewn perthynas â'r feddalwedd ddeddfwriaethol, ond nid yw'n glir o'r naratif beth y bwriedir i'r arian ei gyflawni nac ychwaith beth yw'r gost, na sut y rhennir hwn â Llywodraeth Cymru.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon â chynigion y Gyllideb ddrafft.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiwn fod â dull gweithredu cyson o ran sut mae newidiadau i gyllidebau blynyddol yn cael eu cyflwyno, er enghraifft, gan gynnwys, neu beidio, wariant nad yw'n arian parod a gwariant a reolir yn flynyddol.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, cyn gosod y gyllideb derfynol, bod y ddogfennaeth yn cael ei diwygio i egluro'r gwaith prosiect sy'n cael ei gyflawni o dan y pennawd "gwybodaeth gyhoeddus ac ymgysylltu".

**Argymhelliad 3.** Mae ansicrwydd ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â'r Senedd Ieuenctid ac mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ystyried ymhellach sut y penderfynir ar y costau, a sut y cânt eu cyflwyno yn y Gyllideb ddrafft.

**Argymhelliad 4.** Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael eglurder ynghylch prosiect y feddalwedd, Legislative Workbench, gan gynnwys eglurder ynghylch y costau a sut y rhennir y rhain â Llywodraeth Cymru.

**Casgliad 2.** Mewn amgylchiadau ble y byddai gwariant o ran y Penderfyniad yn fwy na'r amcangyfrif, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl y byddai cyllideb atodol yn gyfrifol am hyn, yn yr un modd ag y byddai unrhyw danwariant sy'n deillio o'r

[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 164

Penderfyniad yn dychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru drwy gyllideb atodol, yn hytrach na chael ei amsugno a'i wario gan y Comisiwn.

# 3. Newidiadau o ran staffio a llywodraethu

**42.** Gwnaeth Adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb ddrafft y Comisiwn 2018-19[28] nifer o argymhellion mewn perthynas â staffio:

> Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu'r adolygiad capasiti sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd fel papur i'r Pwyllgor. Ar y cam hwn, hoffai'r Pwyllgor weld manylion am y cynnydd yn nifer y staff dros y 10 mlynedd diwethaf, gan gynnwys manylion am y gwasanaethau lle y mae nifer y staff wedi cynyddu a'r rhesymau am y cynnydd hwn.
>
> Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ystyried yr adolygiad capasiti ochr yn ochr ag ymarfer meincnodi sy'n cynnwys seneddau eraill, gan gynnwys seneddau sydd â swyddogaeth ddwyieithog.
>
> Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn yn y Cynulliad barhau fel y mae yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19, er mwyn atal cynnydd ychwanegol mewn adnoddau staffio a rhoi cyfle i'r Prif Weithredwr a Chlerc newydd ystyried canlyniad yr adolygiad capasiti a sut y gellir defnyddio'r staff presennol yn effeithiol i fodloni blaenoriaethau'r Cynulliad a'r Comisiwn.[29]

**43.** Rhoddodd y Comisiwn ymateb cychwynnol yn **Rhagfyr 2017** ac, yn **Ymateb y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor, rhoddodd ymateb pellach, gan gynnwys copi o'r Adolygiad Capasiti cychwynnol ym mis Mawrth 2018**. Roedd Atodiad A o'r Adolygiad Capasiti yn cynnwys y dadansoddiad meincnodi a thueddiadau.

**44.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn manylu ar y newidiadau a wnaed i'r trefniadau Llywodraethu.[30] O dan y trefniadau newydd, bydd Bwrdd Gweithredol newydd yn nodi blaenoriaethau gweithredol yn seiliedig ar strategaeth, nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn. Bydd y Bwrdd Gweithredol yn monitro'r gyllideb, yn cytuno ar flaenoriaethau buddsoddi a blaenoriaethau o ran adnoddau, yn

---

[28] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, CR-LD11245 Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19, 20 Hydref 2017

[29] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, CR-LD11245 Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19, 20 Hydref 2017

[30] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, GEN-LD11756 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyllideb Ddrafft 2019-20, 26 Medi 2018, tudalennau 30-31

goruchwylio risgiau corfforaethol ac yn goruchwylio rheoli newid. Bydd Tîm Arweinyddiaeth ehangach yn cyflwyno syniadau ac yn darparu her adeiladol.

**45.** Bydd y Comisiwn, fel y corff llywodraethu, yn cadw'r cyfrifoldeb dros bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad. Bydd y Comisiwn yn parhau i gymeradwyo strategaeth y gyllideb, a darperir iddo fanylion y buddsoddiadau a gymeradwyir gan y Bwrdd Gweithredol. Hefyd bydd y Comisiwn yn parhau i dderbyn sicrwydd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar faterion sy'n ymwneud â risg, rheolaeth a llywodraethu.

**46.** O ran yr Adolygiad Capasiti, dywed y Gyllideb ddrafft:

> "Nododd yr Adolygiad Capasiti nifer o wasanaethau, swyddogaethau a phrosesau ar gyfer adolygiad effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, gan gynnwys cymorth i bwyllgorau a chyfathrebu. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn eisoes yn mynd rhagddo, ac mae'r Bwrdd Gweithredol wrthi'n cynllunio adolygiadau pellach dros y 12 mis nesaf."[31]

**47.** Mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor, dywedodd y Comisiwn:

> "Rydym hefyd yn casglu mwy o ddata meintiol i amlygu swm y gwaith y mae gwahanol dimau yn eu hwynebu, yn ogystal ag ymgymryd ag ymarferion cynllunio senario i ragweld y gofynion posibl yn y dyfodol yn sgil newid cyfansoddiadol pellach, sy'n cynnwys Brexit. Gallai'r gwaith hwn effeithio ar yr uchafswm o 491 y tu hwnt i 2018-19."[32]

**48.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi "ymrwymiad i reoli ei adnoddau staffio yn gadarn i ddiwallu anghenion y Cynulliad, o fewn y 491 o swyddi penodedig y sefydliad, tan yr etholiad nesaf"[33] ac yn nodi bod chwe swydd wag wedi cael eu hailddyrannu ar gyfer anghenion blaenoriaeth sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a Diwygio'r Cynulliad. O ran ymadael â'r UE, nododd y Comisiwn fod sefydliadau eraill yn penodi staff newydd i ddiwallu'r heriau hynny,[34] dywedodd y Prif Weithredwr:

[31] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, GEN-LD11756 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyllideb Ddrafft 2019-20, 26 Medi 2018, tudalen 15

[32] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, FIN (5) -08-18 PTN3 Llythyr gan Gomisiwn y Cynulliad at y Cadeirydd - Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19 - 9 Mawrth 2018, 15 Mawrth 2018

[33] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, GEN-LD11756 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyllideb Ddrafft 2019-20, 26 Medi 2018, tudalen 15

[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 104

> "… if we do have a huge change, a change in the size of the Assembly, something of that magnitude, then I think we would have to recalculate and come back to discuss that with you and discuss it with the Commission again. But the very considerable additional resources already being demanded by constitutional change and Brexit are, at the moment, being absorbed."[35]

**49.** Gofynnodd yr Aelodau a oedd yr adolygiad capasiti wedi galluogi'r Comisiwn i ystyried a yw staff presennol y Cynulliad ar y lefel iawn o'i gymharu â Seneddau eraill (gan gynnwys Seneddau dwyieithog), eglurodd y Prif Weithredwr:

> "It has been a very productive exercise, and we've engaged with all staff to understand the distribution of the resource. The committee has been sent a copy of the phase 1 report, which had included a lot of the benchmarking work in it. We have subsequently worked with a steering group, drawn from a lot of different departments, to draw up an action plan, which was finished before the summer and which outlines a programme of change moving forward. And the four goals are to enable us to work in a more agile way, so that staff can deploy their skills on a number of projects, as suits the business priorities.
>
> We have made economies in lots of little ways. We have looked at ways of streamlining our procedures. We have looked at ways of using IT better, realising other benefits of IT investment— invest-to-save, renegotiated contracts, that sort of thing. And then we have brought those savings together to consider how we can then meet the evolving needs of the Assembly going forward.
>
> So, to answer your question, I think that we are comfortable that, although there is significant work pressure on everyone, we are at the moment staying within that establishment post count of 491 that we gave you an undertaking last year that we would stay within. And we are managing dynamically to make sure that we can meet the new demands from within that staff cohort."[36]

## Cynllun Ymadael Gwirfoddol Posibl

**50.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi bod Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES) yn cael ei "ystyried o ddifri" yn chwarter olaf 2018-19, a allai gael ei ariannu yn sgîl arbedion

[35] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3Hydref 2018, paragraff 106

[36] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraffau 91-93

busnes gweithredol o gyllidebau staff 2018-19 a 2019-20. Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi:

> "Y fantais o gynnig VES yw ei fod yn galluogi'r Comisiwn i ddefnyddio'r capasiti a ryddhawyd er mwyn darparu'r anghenion blaenoriaeth uchaf ac i addasu'r cymysgedd sgiliau fel ei fod yn cydfynd â heriau presennol a rhai sydd wedi'u nodi ar gyfer y dyfodol. Byddai unrhyw VES yn amodol ar feini prawf cadarn ar gyfer targedu a dethol a hefyd i reoli costau. Gan ein bod yn gwybod y byddwn yn wynebu galwadau ychwanegol am adnoddau i fynd i'r afael â'r ddeddfwriaeth fydd yn deillio o Brexit a Diwygio Trefniadau'r Cynulliad, o fewn terfyn y sefydliad."[37]

**51.** Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd y byddai unrhyw Gynllun Ymadael Gwirfoddol yn unol ag argymhellion yr adroddiad ar **Reoli ymadawiadau cynnar** gan Swyddfa Archwilio Cymru, a sicrhawyd y Pwyllgor gan y Prif Weithredwr y byddai hyn yn digwydd, ond pwysleisiodd hefyd nad oedd penderfyniad wedi'i wneud i gynnal y Cynllun.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

**52.** Gofynnwyd nifer o gwestiynau i'r Comisiwn mewn perthynas â staffio, gan gynnwys:

- Cyfraddau salwch
- Proffil rhyw
- Proffil hil
- Newidiadau i'r cynllun ieithoedd swyddogol

**53.** Mewn cysylltiad ag absenoldebau salwch, dywedodd y Prif Weithredwr:

> "... we have analysed what was behind that. With a relatively small cadre of staff, obviously, it only takes a few long-term sick cases to actually have a disproportionate effect on the figures, and there is bit of that. Unusually, in last August—in August 2017—there was a spike, which we haven't seen before or since. There happened to be a number of long-

[37] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, GEN-LD11756 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyllideb Ddrafft 2019-20, 26 Medi 2018, tudalennau 15-16

> term absence cases, an unusual concentration of hospital and medical procedures at that time, …
>
> I would say that it's been a turbulent year—it's been a year of change and uncertainty—and that is acknowledged to have an effect on sickness absence and, indeed, on turnover rate, which is also higher this year than it was the year before. And I think we have addressed that.
>
> It's certainly true that mental health is an obvious cause of many of these sickness absences and, whilst being very glad that we are clearly reducing the stigma around stating that that is the reason for absence, because it gives us a chance to address it, there are measures that we need to take. I think we have been looking a lot at mental health during the last year. We now have two business partners who are specifically appointed to work with heads of service on managing sickness absence generally and the programme of action we've got—. I've got a list here—we've been supporting the Time to Change Wales campaign, we support the World Mental Health Day in October. We have established a network, a staff network, which is called MINDFUL, and we have a mental health champion on the senior leadership team, and allies, peer support—we have encouraged people to come forward and offer that. We have offered a lot of training as well to promote awareness of this amongst line managers and amongst people who may be suffering from mental health problems themselves. So, it's something we do take very seriously and we will continue to take seriously and monitor what happens. I would say, though, that even though we are not meeting our own challenging target, we are there or thereabouts in terms of the Chartered Institute of Personnel and Development reported public sector average."[38]

**54.** Nododd y Comisiynydd hefyd fod y gyllideb yn cynnwys "cynnydd cymedrol o ran y buddsoddiad ym maes iechyd a lles staff",[39] ac ychwanegodd y Prif Weithredwr fod adnoddau penodol wedi'u cyfeirio o ran hyfforddiant i gynorthwyo staff sy'n gwneud cwynion o dan yr agenda Urddas a Pharch newydd.[40]

**55.** Gofynnwyd i'r Comisiwn am y diffyg cynrychiolaeth o bobl dduon, pobl Asiaid a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig (BAME) mewn rolau rheoli uwch a

[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraffau 129-132

[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 134

[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 137

chanolradd. Amlinellodd y Prif Weithredwr fod ymdrechion yn cael eu gwneud i annog datblygu llwybrau gyrfa a hyfforddiant[41], ac mae rhwydwaith penodol yn bodoli i gefnogi staff o wahanol gefndiroedd ethnig, ond mae'r Comisiwn wedi bod yn canolbwyntio ar recriwtio ar raddfeydd swyddi is, i ddenu pobl i'r sefydliad. Nododd y Prif Weithredwr fod y Cynllun Prentisiaeth diweddar yn cynnwys:

> "… we adopted a different advertising campaign; we had a suite of outreach events and partnered with community leaders and were guided by them on processes to try and decrease any barriers to entry. So, we hope that getting people in that way will then enable us to develop them within the organisation and undertake succession planning."[42]

**56.** Fodd bynnag, ni ystyriodd y Comisiwn y gallai'r gofynion iaith newydd effeithio ar nifer yr ymgeiswyr BAME, a dywedodd y Comisiynydd:

> "It's obviously for people who don't speak Welsh, isn't it, regardless of their background? So, that could be people who aren't from the BME community as well. The point of the courtesy Welsh is that it's a piece of training you get when you get here. It's not an entry requirement. So, I'm not really sure why that would necessarily put anybody off. We are talking about some communities where they have more than one language anyway. So, I don't see it as a deterrent myself; it's actually an increase in your skill set when you get here."[43]

**57.** Parhaodd y Prif Weithredwr gan ddweud:

> "I would say, as a piece of evidence to support that—on the recruitment that we've undertaken since bringing that requirement in, which is the apprenticeship scheme that I talked about for this year, we had a much greater BME response than usual to that. So, that suggests that, again, that is not seen as an issue—it's not a barrier."[44]

**58.** Eglurodd y Prif Weithredwr pam nad oes Arolwg Staff wedi'i gynnal ers mis Mai 2017:

> " Staff satisfaction continues to be very important to us, and as I mentioned, we were aware that the capacity review as a process could

[41] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 147

[42] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 149

[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 153

[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 154

> be unsettling. Change is unsettling, though necessary. We do survey staff annually. This year's staff survey is still to come. It's in November. We moved it from its usual slot, because earlier in the year, we were already surveying AMs and AMSS staff, as we do every year, and we were asking people about the dignity and respect issues, which I mentioned just now. So, we didn't want to overburden staff by asking them too much, but we have been engaging very thoroughly with staff, and I'm extremely grateful for the commitment that my colleagues have shown to that process. People have taken time out to help us think through the challenges ahead of us, and to give us the benefit of their wisdom from different parts of the organisation so that we can come up with collaborative solutions together. So, the whole thing has been a very positive exercise, as far as I'm concerned, and, of course, if we can keep staff engaged in this process, that is an important indicator of their well-being as well."[45]

## Safbwynt y Pwyllgor

**59.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Comisiwn i gadw nifer y staff o fewn 491 tan ddiwedd y Cynulliad hwn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod, fodd bynnag, bod ansicrwydd sylweddol a newid o'n blaen, yn enwedig o ran datganoli cyllidol, ond hefyd o ran newid cyfansoddiadol a Brexit. Ni fyddai'r Aelodau, o reidrwydd, am weld bloc mympwyol ar gynyddu nifer y staff pe bai angen yn cynyddu'n sylweddol, fodd bynnag, byddai'n annog y Prif Weithredwr i gynllunio'n rhagweithiol ar gyfer newidiadau posibl o ran staff.

**60.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r posibilrwydd y bydd Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES) ar waith cyn diwedd y flwyddyn ariannol, ac mae'n falch bod y Prif Weithredwr wedi cadarnhau y bydd unrhyw VES yn dilyn canllawiau Swyddfa Archwilio Cymru ar arfer gorau. Roedd yn anodd canfod, fodd bynnag, sut mae unrhyw VES yn cysylltu â'r adolygiad capasiti, a sut y gellid defnyddio'r adolygiad capasiti ar gyfer targedu Cynllun Ymadael Gwirfoddol i raddau mwy helaeth. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol y gallai sensitifrwydd fodoli yn y broses o nodi sut y gallai'r adolygiad capasiti nodi pobl / swyddi penodol nad oes eu hangen mwyach, ond byddai'n croesawu cael y wybodaeth hon maes o law, pe bai VES yn cael ei gyflwyno.

**61.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad oes dull ffurfiol wedi bod ar gael i staff roi adborth i reolwyr ers mis Mai 2017, yn enwedig o ystyried y materion sy'n ymwneud â chyfraddau salwch uchel, rhagor o drosiant staff a'r newid sylweddol y

---

[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 141

mae'r sefydliad yn ei weld. Nodir y disgwylir y bydd yr Arolwg Staff nesaf yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd 2018, a byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb gan y Comisiwn ynghylch sut y mae'n asesu boddhad a lles staff.

**62.** Mae'r Pwyllgor yn poeni am yr absenoldeb salwch cynyddol yn y Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â salwch, yn enwedig yr ymdrechion i gefnogi staff â phroblemau iechyd meddwl.

**63.** Cymeradwyir yr ymdrechion i dargedu pobl dduon, pobl Asiaidd a phobl o gefndiroedd ethnig (BAME) yn y cynllun prentisiaeth diweddar. Mae'r Pwyllgor yn siomedig, fodd bynnag, â'r gynrychiolaeth isel o grwpiau BAME ar draws y sefydliad, yn enwedig mewn swyddi lefel uwch. Byddai'r Pwyllgor yn annog y Comisiwn i sicrhau nad yw ymdrechion i gynyddu cynrychiolaeth pobl BAME yn canolbwyntio ar raddfeydd swyddi is yn unig, a byddai'n croesawu sicrwydd nad yw newidiadau i'r prosesau recriwtio wedi effeithio'n andwyol ar y gymuned BAME.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai unrhyw benderfyniadau o ran staffio gael eu hystyried o ddifri gan y Comisiwn, gan gynnwys unrhyw Gynllun Ymadael Gwirfoddol, a dylai unrhyw gynllun o'r fath gael ei gysylltu'n agos â chanfyddiadau'r Adolygiad Capasiti diweddar.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y cynnydd ymddangosiadol mewn absenoldeb oherwydd salwch a throsiant staff, ac mae'n argymell y dylid darparu rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae'r Comisiwn yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

# 4. Diwygio'r Cynulliad

**64.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn disgrifio'r gwaith a gynllunnir i fwrw ymlaen â diwygio'r Cynulliad. Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd y Llywydd y bydd deddfwriaeth mewn dau gam:

> "Bydd y cam cyntaf yn cynnwys, ymysg diwygiadau eraill, deddfu yn 2019 i leihau'r isafswm oed pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16 oed, yn weithredol o 2021, a newid enw'r sefydliad i Senedd Cymru / Welsh Parliament. Ni fydd ail-frandio'n llwyr na newid y logo
>
> Byddai'r ail gam, a fyddai'n cynnwys cynyddu nifer Aelodau'r Cynulliad, yn dibynnu ar "*gonsensws o ran y system bleidleisio*"."[46]

**65.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi y bydd y mwyafrif o waith cwmpasu a datblygu'r cynigion deddfwriaethol yn cael ei gyflawni drwy ail-flaenoriaethu adnoddau'r Comisiwn, ac y bydd cytundeb â Llywodraeth Cymru i rannu adnoddau er mwyn osgoi dyblygu o ran polisïau sy'n gorgyffwrdd yn ymwneud ag oed pleidleisio rhwng Bil y Comisiwn a'r Bil Llywodraeth Leol.[47]

**66.** Cadarnhaodd y Prif Weithredwr na all y Comisiwn ymrwymo arian y gyllideb cyn i benderfyniadau gael eu gwneud eu bod yn angenrheidiol.[48] Gofynnwyd i'r Comisiwn a fyddai meysydd busnes craidd y Cynulliad yn cael eu hail-flaenoriaethu i gyflawni'r gwaith ar ddiwygio, a dywedodd y Prif Weithredwr:

> "This is the kind of dynamic management that we are constantly engaging in. We would aim to delay anything that we can delay and manage budgets—manage any savings that we made in year—to provide for new needs like that. Ultimately, we'll have to come back to the Commission and to you if we can't. But, at the moment, our calculation is that the budget, as presented, is the right balance between affordability and meeting the needs that need to be met.."[49]

[46] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Elin Jones (y Llywydd), Blaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad o ran Diwygio'r Cynulliad yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, "Creu Senedd i Gymru", Datganiad Ysgrifenedig, 18 Gorffennaf 2018

[47] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, GEN-LD11756 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyllideb Ddrafft 2019-20, 26 Medi 2018, tudalennau 18-20

[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 159

[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2018, paragraff 161

## Safbwynt y Pwyllgor

**67.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Prif Weithredwr wedi datgan na allai'r Comisiwn ymrwymo arian ar gyfer diwygio'r Cynulliad cyn i'r penderfyniad gael ei wneud bod angen diwygio'r Cynulliad. Fodd bynnag, wythnos ar ôl i'r Comisiwn roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ganiatáu i Gomisiwn y Cynulliad gyflwyno Bil Senedd Cymru ac Etholiadau (Cymru).[50]

**68.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod na fyddai'n briodol i fod wedi cynnwys cyllid ar gyfer diwygio'r Cynulliad cyn cael mandad ar gyfer gwario yn y maes hwn. Gan fod y mandad hwn wedi'i roi bellach, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i'r gyllideb derfynol adlewyrchu sut y bydd newidiadau'n cael eu hymgorffori i ariannu'r gwaith hwn. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y tystion yn dweud y byddai'r gyllideb ddrafft hon yn cael ei defnyddio i dalu costau'r gwaith ar ddiwygio, felly byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar sut y bydd y blaenoriaethau gwariant yn newid i ddarparu ar gyfer y gwariant hwn.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig ynglŷn â Diwygio'r Cynulliad gynnwys asesiad cadarn o effaith ariannol.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn darparu manylion am y newidiadau yn y gyllideb derfynol sy'n adlewyrchu gwariant ar ddiwygio'r Cynulliad i'r Pwyllgor. Pe bai gofyniad am gyllideb atodol mewn perthynas â diwygio, dylai'r Comisiwn ddarparu manylion i'r Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl.

[50] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2018, paragraffau 309-383 a 492-493